



# Ysgol Gyfun Garth Olwg

## Cytundeb Ysgol-Cartref

Mae'r polisi wedi ei gymeradwyo ac argymhellwyd ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethol Llawn.

Dyddiad: fed o Fawrth, 2018

Arwyddwyd: Cadeirydd y Llywodraethwyr

Adolygwyd: Tymor yr Hydref, 2021



## **CYTUNDEB YSGOL-CARTREF**

Bwriad y cytundeb hwn yw hybu cydweithrediad a dealltwriaeth. Mae Garth Olwg wedi ymfalchïo erioed yn y berthynas iach sydd rhwng y rhieni/gwarchodwyr, y disgyblion a'r athrawon. Gobeithio y bydd y cytundeb yma yn gam arall ymlaen.

### **Y Rhiant/Gwarchodwr**

Gwnaf sicrhau fy mod yn:

- hybu lle'r iaith Gymraeg ym mywyd ein plentyn;
- ymddiddori yng ngwaith ysgol ein plentyn, gan ddiogelu cyfle iddo/iddi gyflawni gwaith cartref yn effeithiol;
- cefnogi ymdrechion yr ysgol i gynnal safonau ymddygiad ac ymddangosiad;
- rhoi gwybod i'r ysgol os oes problemau fyddai'n gallu effeithio ar waith neu ymddygiad;
- sicrhau fod safonau presenoldeb a phrydlondeb ein plentyn mor uchel â phosibl
- rhoi gwybod i'r ysgol ymlaen llaw os oes, er enghraifft, apwyntiad meddygol;
- anfon nodyn pan fydd fy mhleintyn yn dychwelyd;
- sicio'r Cynllun Gwaith Personol a'i lofnodi bob wythnos;
- bod yn bresennol yn y cyfarfodydd rhieni er mwyn trafod cynnydd ein plentyn;
- ceisio bod yn rhan o fywyd ein plentyn yn yr ysgol ac o fywyd yr ysgol ei hunan.
- hysbysu'r ysgol o fy manylion cyswllt er mwyn sicrhau fy mod yn derbyn cyfathrebiadau rheolaidd.

### **Yr ysgol**

Byddwn ni fel ysgol yn ddarparu:

- y cyfle i ddatblygu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- bywyd ysgol diogel a hapus i'ch plentyn;
- cyfle teg i bob unigolyn ynghyd â'r gefnogaeth i ganiatáu i bob un gyrraedd eu potensial;
- arweiniad a nodau addysgol clir;
- adroddiadau ar gynnydd academiaidd a datblygiad personol eich plentyn;
- gwybodaeth yn brydlon am broblemau ynghylch gwaith neu ymddygiad eich plentyn;
- fframwaith o reolau a disgyblaeth teg ac agored;
- gwaith cartref priodol;
- cyfarfodydd rhieni er mwyn trafod cynnydd a datblygiad eich plentyn i'r dyfodol;
- rhychwant eang o weithgareddau allgyrsiol;
- gwybodaeth amserol a pherthnasol am weithgareddau, cyfleoedd a digwyddiadau.

## Y Disgybl

Gwnaf:

- siarad yr iaith Gymraeg ym mhob sefyllfa bosibl y tu fewn a'r tua llan i'r ysgol;
- fod yn awyddus i gymryd rhan llawn ym mywyd yr ysgol;
- fod yn gwrtais ac yn gydweithredol tuag at holl staff a disgyblion yr ysgol;
- fod yn ystyriol o eraill, gan gofio fod fy ymddygiad yn effeithio ar bobl eraill;
- gadw rheolau'r ysgol, gan gynnwys rhai'r wisg ysgol;
- fod yn yr ysgol yn brydlon bob dydd;
- barchu amgylchedd yr ysgol a'i gadw'n daclus;
- sicrhau fod yr holl offer sydd eu hangen ar gyfer y dydd gyda fi;
- gofio cadw holl reolau'r ysgol ar y bws ysgol, ac i sicrhau taith ddiogel a dymunol i bob disgybl.